CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
www.llanfaircommunityCouncil.co.uk

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd yng Ngholeg Llysfasi, Rhuthun, nos Lun, 15 Mai 2023 am 7.30pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Moulsdale [Is-gadeirydd], Osian Owen, Shaun Williams, Owen Evans a Ceri Ranson ynghyd â'r Clerc, Sian E Thomas a'r cynghorydd newydd, y Cynghorydd Simon Knight-Saunders. Cyrhaeddodd y Cynghorydd Eilir Jones am 8pm.

Rhan 1

Dechreuodd y cyfarfod am 7:30pm.

1003. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1004. Derbyniwyd **ymddiheuriadau** gan y Cynghorydd David Baker.

1005. **Adroddiad Blynyddol y Cyngor.** Cyflwynodd y Cadeirydd Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2022-23. **Adroddiad Blynyddol 2022-23**

1006. **Ethol Cadeirydd.** Enwebwyd y Cynghorydd Mayers gan y Cynghorydd Ceri Ranson ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Owen Evans.

1007. **Ethol Is-gadeirydd.** Enwebwyd y Cynghorydd Moulsdale gan y Cynghorydd Jayne Mayers ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Owen Evans.

1008. **Croesawu cynghorydd newydd.** Croesawodd y Cadeirydd Simon Knight-Saunders fel cynghorydd newydd.

1009. **Datgan derbyn y swydd.** Gwnaeth y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r cynghorydd newydd lofnodi eu datganiadau, gyda'r Clerc yn dyst.

1010. **Adolygu cynrychiolwyr y Cyngor ar gyrff allanol**

Y Cynghorydd Osian Owen i barhau fel Llywodraethwr yn Ysgol Pentrecelyn.

1011. **Datganiad buddiannau.** Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

1012. **Pwyllgorau**

a. Adolygu'r trefniadau dirprwyo i Bwyllgorau a staff

b. Adolygu'r Cylch Gwaith

c. Penodi aelodau i Bwyllgorau

d. Penodi Pwyllgorau newydd

Gan nad oes gan y Cyngor Cymuned unrhyw bwyllgorau ar hyn o bryd, nid oedd angen trafod yr eitemau hyn.

1013. **Y Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol** Trafodwyd y Rheolau Sefydlog a **phenderfynwyd** eu mabwysiadu gyda'r diwygiadau i Adrannau 1.3, 12 a 23.2.
Trafodwyd y Rheoliadau Ariannol diwygiedig a **phenderfynwyd** eu mabwysiadu gyda'r diwygiadau i Adrannau 1C, 5B, 6A a 7B.

1014. **Asedau'r Cyngor**. Adolygwyd y rhain yn ddiweddar felly nid oedd angen eu hadolygu eto. Anfonir copi o'r rhestr asedau i'r cwmni yswiriant.

1015. **Penderfynwyd:** parhau gyda Zurich fel cwmni yswiriant y Cyngor yn 2023/24. **Gweithred:** Y Clerc i dalu'r premiwm.

1016. **Tanysgrifiadau. Penderfynwyd** parhau i dalu'r tanysgrifiadau blynyddol i SLCC ac Un Llais Cymru.

1017. **Cyfarfodydd yn ystod 2023/24. Penderfynwyd:** cyfarfod ar nos Lun cyntaf pob mis, ac eithrio ym mis Awst, mewn lleoliad lleol addas. Bydd y cyfarfodydd yn dechrau am 7.30pm. **Gweithred:** Y Clerc i roi'r dyddiadau ar y wefan.

1018. **Sesiwn Cyfranogiad y cyhoedd**, yn parhau am uchafswm o 10 munud. Nid oedd unrhyw un o'r cyhoedd yn bresennol.

1019. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Ebrill 2023.** Cytunodd y Cyngor, ar ôl ystyried y cofnodion, eu bod yn gofnodion cywir a'i bod yn briodol i'r Cadeirydd eu llofnodi.

1020. **Materion yn codi o'r cofnodion**

a. Mae'r Clerc wedi ymchwilio i brisiau am hysbysfyrddau ac maent ar gael am oddeutu £1,000. **Gweithred:** Y Clerc i gasglu detholiad o hysbysfyrddau dwy ffenestr sy'n ffitio dalen A4 y naill ochr ac y gellir ei gloi a rhannu'r wybodaeth gyda'r cynghorwyr fel y gellir dewis yr un mwyaf addas.
b. Mae'r Clerc wedi ymchwilio i bris mainc i'w gosod yng nghysgodfan bws Graigfechan. Byddai'r pris oddeutu £300 ynghyd â chostau gosod y fainc. Mae Cynghorwyr wedi cynnig gwneud y gwaith gosod.
c. Mae'r Clerc wedi cysylltu â pherchnogion y gwrych wedi gordyfu yng Nghrud yr Awel, Llanfair DC, yn gofyn iddynt ei dorri.
d. Mae'r Clerc wedi cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych ynghylch trwsio'r bont sy'n cael ei hadnabod fel Pont Hafod, ger y Silff yn Llanfair DC, ac fe'i hysbyswyd fod trwsio'r wal parapet ar raglen mân waith yr awdurdod lleol i'w gyflawni yn ystod haf 2023.
e. Gwnaed ymholiadau am yr anfoneb a dderbyniwyd gan gyfreithwyr y Cyngor Cymuned am y gwaith a wnaed ar y Trosglwyddo Ased Cymunedol a'i thalu'n dilyn hynny.
f. Gosodwyd arwyddion llwybr troed bellach ar y llwybr ger Llanbenwch.

1021. **Safle'r hen ysgol a chae chwarae – diweddariad Trosglwyddo Ased Cymunedol**

a. Mae'r dogfennau wedi cael eu llofnodi erbyn hyn ac mae'r cae chwarae'n eiddo i'r Cyngor Cymuned.

b. Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn caniatâd cynllunio i dorri 17 o goed bychan ar y safle. **Penderfynwyd:** Byddant yn cael eu torri ymaith ar ôl 31 Awst, yn unol â'r canllawiau ynghylch y tymor adar yn nythu. Ni fydd gwreiddiau coed eraill yn cael eu niweidio yn y broses. Hysbyswyd y Cyngor Cymuned fod rhaid i unrhyw waith sy'n ofynnol ar goed neu wrychoedd yn yr ardal gadwraeth, yn cynnwys trimio, tocio a gwaith a nodwyd mewn arolygon ar y coed, gael caniatâd cynllunio. Bydd y Cyngor Cymuned yn cyflwyno cais ar gyfer unrhyw waith sy'n ofynnol. Cytunwyd i ofyn i Scottish Power symud y polyn ymhellach i fyny'r lôn, fel y trafodwyd yn flaenorol.

c. Gwnaed arolwg coed ar yr holl goed a gwrychoedd yn y cae, a dylai'r adroddiad gyrraedd y Cyngor Cymuned yn ddiweddarach yr wythnos hon.

d. Cyfarfu'r Cadeirydd a'r Clerc gyda chynrychiolydd o'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt i drafod eu syniadau ynghylch bioamrywiaeth. Awgrymwyd mai cadw'r glaswellt yng nghanol y cae yn fyr gyda glaswellt hirach o amgylch yr ymylon fyddai'r ffordd orau o annog bywyd gwyllt, fel rydym yn ei wneud ar hyn o bryd. Awgrymwyd hefyd defnyddio peiriant torri glaswellt i greu llwybrau yn y glaswellt hir o amgylch cyrion y cae a chyflwyno cylch torri a fyddai'n golygu torri darnau ohono bob dwy a thair blynedd. Hefyd awgrymwyd ei adael heb ddefnyddio peiriannau am ychydig o flynyddoedd i adael iddo ddatblygu'n organig a thorri llwybrau yn y glaswellt hir o amgylch ymylon y cae. Fodd bynnag, rhaid i'r fynedfa a'r llwybrau newydd gydymffurfio â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb, felly bydd rhaid gwneud peth gwaith datblygu. Roedd Cynghorwyr wedi cael ymholiadau gan y cyhoedd ynghylch y diweddaraf am y cae, a'r consensws oedd y disgwylir i'r Cyngor fwrw ymlaen i osod offer ffurfiol. Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru wedi cynnig cynnal digwyddiadau addysgiadol ar y cae, ac mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus i hyn ddigwydd, a chynigiwyd egin goed lleol hefyd i lenwi rhai bylchau yn y gwrych. Mae'r Cyngor Cymuned yn ddiolchgar iawn am y mewnbwn a bydd yn parhau i weithio gyda'r Ymddiriedolaeth ar y prosiect. **Penderfynwyd:** Cadw at ein cynllun gwreiddiol i barhau i gynnal trafodaethau gyda chwmnïau offer chwarae gyda'r nod o osod offer unwaith y bydd cyllid grant wedi'i sicrhau.

e. Mae'r Clerc wedi siarad â thîm yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghyngor Sir Ddinbych ac mae'n nhw'n fodlon cynorthwyo gyda'r cae mewn unrhyw fodd.

f. Gwahoddwyd cwmnïau offer chwarae i ddod i'r Diwrnod Mabolgampau yn Llanfair ar 27 Mai i rannu eu syniadau gydag aelodau'r gymuned.

Bydd gasebo'r Cyngor Cymuned yno a bydd cynghorwyr yno i sgwrsio â'r cyhoedd. Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn rhai cynlluniau gan gwmnïau a **phenderfynwyd:** anfon y cynlluniau i ysgolion a grwpiau lleol er mwyn i'r disgyblion eu gweld a chyfleu eu sylwadau i'r Cyngor Cymuned. **Gweithred:** Y Clerc i e-bostio'r cynlluniau i'r ysgolion lleol a grwpiau lleol.

g. Awgrymwyd cyflawni'r camau isod yr haf hwn:
    i. Gosod ffens pen bwa a giât i gerddwyr ym mynedfa uchaf y cae.
    ii. Plannu gwrych bwytadwy nesaf at y ffens newydd sy'n ffinio'r hen ysgol.
    iii. Prynu pedwar bwrdd picnic, yn cynnwys un sy'n addas ar gyfer cadair olwyn.
    iv. Prynu pâr o byst gôl gyda socedi.

Bydd yr eitemau hyn yn costio tua £9,000 a bydd y Clerc yn chwilio am gyllid grant addas i'w cyllido. Yna bydd y cae yn fan y gall y gymuned ei ddefnyddio dros fisoedd yr haf. **Penderfynwyd:** Archebu'r ffens, y giât, y planhigion gwrych a'r meinciau picnic. Mae'r Cynghorydd Eilir Jones wedi prynu set o byst gôl yn garedig iawn. **Gweithred:** Y Clerc i wneud cais am grant lleol i dalu am yr eitemau hyn.

1022. **Materion Priffyrdd a'r Amgylchedd**

a. Pryderon goryrru. Nodwyd bod Darren Millar AS bellach yn cynorthwyo cymuned Pwllglas i gael croesfan. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â'r Cynghorydd Sir Hugh Evans i drafod y mater.
b. Derbyniwyd neges e-bost gan Steve Whipp am y cynllun Gwylio Cyflymder a chadarnhaodd ei fod yn disgwyl i glywed gan yr heddlu.
c. Derbyniwyd neges e-bost gan un o drigolion Cae Mair am broblemau goryrru. **Gweithred**: Y Clerc i anfon y neges e-bost ar bob Cyngorydd.
d. Cafwyd ymholiad am y rhwystrau diogelwch wrth Cae Mair. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Ben Wilcox Jones yng Nghyngor Sir Ddinbych amdanynt.
e. Bu llawer o geir yn goryrru drwy Graigfechan pan oedd Nant y Garth ar gau. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych am y broblem ac awgrymu presenoldeb Gan Bwyll yng Nghraigfechan os bydd Nant y Garth ar gau eto.

1023. **Materion Cyllid**

a. Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol ddiweddariad ar y sefyllfa bancio a'r tasgau ariannol. Cytunwyd i drosglwyddo cronfeydd dros ben o'r cyfrif cyfredol i'r cyfrif adneuo er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfraddau llog uwch. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn y broses o baratoi'r dogfennau i'r Archwilydd Mewnol. Mae gweithdrefn newydd wedi'i sefydlu eleni gyda phorth digidol ar gyfer uwchlwytho'r holl ddogfennau. **Penderfynwyd**: bod y Clerc i gael cerdyn debyd gan HSBC at ddefnydd y Cyngor Cymuned.

b. Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol y Rhestr Taliadau ar gyfer mis Ebrill 2023 a chytunwyd ar yr holl daliadau.

Dyddiad	I	Swm	Sylwadau
06/04/2023	Un Llais Cymru	£210.00	Tanysgrifiad blynyddol
06/04/2023	Capel Ebeneser	£250.00	Cyfraniad
	Cyfreithwyr Swayne		Ffi Trosglwyddo Ased
14/04/2023	Johnson	£882.00	Cymunedol
06/04/2023	Eisteddfod Llangollen	£100.00	Cyfraniad
18/04/2023	AVOW	£635.48	Cyflogres mis Ebrill 2023
21/04/2023	HSBC	£5.00	Ffi bancio mis Mawrth 2023
		£2,082.48	

c. Mae'r Clerc wedi cael ei Harfarniad Perfformiad blynyddol a chytunwyd y bydd yn cynyddu ei horiau i 40 awr y mis, i'w adolygu ymhen chwe mis.

d. **Penderfynwyd:** Prynu baner gydag enw'r Cyngor Cymuned arni i'w arddangos ar y gazebo yn y Diwrnod Mabolgampau.

1024. **Materion Cynllunio**

a. Nodwyd y cyflwynwyd cais cynllunio, cais 20/2023/0260, yn achos Pentre Coch Cottage. Gan nad oedd y Clerc wedi derbyn unrhyw wybodaeth am y cais **penderfynwyd:** y bydd y Clerc yn cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i ofyn am estyniad i'r dyddiad cau i wneud sylwadau gan fod y cynghorwyr yn bryderus am raddfa'r datblygiad a byddent yn croesawu estyniad i'r cyfnod er mwyn ystyried y mater yn fanwl.

b. Nodwyd bod rhai cytiau bugail wedi ymddangos yn Nhŷ'n y Minffordd, Pentrecoch. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i holi a ydynt wedi derbyn caniatâd cynllunio.

1025. **Gohebiaeth i'w adolygu**

a. Nodwyd y bydd swyddogion heddlu gwledig yn dod i rai o gyfarfodydd y Cyngor Cymuned yn y dyfodol.

1026. **Eitemau y tynnwyd sylw Cynghorwyr atynt**

a. Cafwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd am gae a oedd wedi'i aredig yn rhy agos at y gwrych. **Gweithred:** Y Cynghorydd Osian Owen i gael gair gyda'r tirfeddiannwyr am hyn.
b. Gwnaeth y Cynghorwyr longyfarch Ysgol Pentrecelyn ar ei arolygiad Estyn diweddaraf, a oedd yn rhagorol.

Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 5 Mehefin yn Genus, Llanrhydd, Rhuthun.

Gorffennodd y cyfarfod am 9.05pm.

CADEIRYDD DYDDIAD